Ar un adeg, dros 300 miliwn o flynyddoedd yn ôl, roedd yr ardal sy'n cael ei hadnabod fel y Mynydd Du yn waelod i gefnfor trofannol bas yn ymyl y cyhydedd.

Pan oedd creaduriaid y môr yn marw, roedden nhw'n suddo i waelod y môr trofannol bas.

Gorchuddiwyd y creaduriaid môr mewn gwaddodion. Roedd y gwaddodion yn symud pan oedd y platiau tectonig yn symud. Dros amser, caledodd y gwaddodion.



Miliynau o flynyddoedd wedi hynny, roedd y graig galed, a oedd wedi'i ffurfio o nifer fawr o greaduriaid môr, wedi troi'n graig calsiwm carbonad o'r enw calchfaen.

Y tu mewn i'r calchfaen mae yna weddillion ffosiledig miliynau o greaduriaid môr bychain.

Yn ystod y tair canrif ddiwethaf, cafodd yr ardal ei chloddio gan ffermwyr. Roedden nhw'n llosgi'r calchfaen er mwyn creu calch i helpu i niwtraleiddio'u pridd asidig.

Cronfa Datblygu Cynaliadwy Sustainable Development Fund
Canolfan y Mynydd Du Black Mountain Centre
ymddiriedolaeth archaeolegol DYFED archaeological trust
Llywodraeth Cymru Welsh Assembly Government
Amgueddfa Genedlaethol y Glannau National Waterfront Museum